# Cofnodion Fforwm Mynediad Ysgolion Gwynedd

Addysg

**Dydd Llun, Hydref 20fed 2025 am 10.00**
**Cyfarfod Microsoft Teams**

**Yn bresennol:** Gwern ap Rhisiart, Alison Halliday, Debbie Jones, Owain Dewi Hughes, Ffion Griffith (cofnodi), Joanna Thomas, Rhian Parry Jones,

**Ymddiheuriadau:** Ffion Edwards Ellis, Colette Owen, Aimee Jones, Fiona Morris

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd yr ymddiheuriadau.

**2. Cofnodion cyfarfod 7 Gorffennaf 2025**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir. Dim materion penodol yn codi.

**3. Adroddiad Blynyddol drafft (er cymeradwyaeth)**

Eisoes wedi cael ei rannu gyda phawb. Nodwyd mai templed llynedd ydyw gan gymryd nad oes newid am fod i'r gofynion eleni.
Dim sylwadau yn codi.

**4. Trefniadau mae'r Awdurdod am ymgynghori arnynt**

Nododd ODH bod hi'n ofynnol i bob Awdurdod mynediad ymgynghori yn flynyddol ar eu trefniadau mynediad. Does dim bwriad o newid unrhyw beth yn ein trefniadau mynediad oni bai am rifau mynediad rhai ysgolion. Mae rhaglen wedi ei sefydlu i ymweld ag ysgolion ac ail asesu capasiti. Mae Dalgylchoedd Bangor, Brynrefail a Dyffryn Ogwen eisoes wedi eu gwneud ac mae bwriad o weld y gweddill hefyd. Does dim disgwyl i niferoedd newid yn sylweddol, ond os oes newid mewn adeiladau a defnydd o ystafelloedd yna mae angen cynnal asesiad.
Nodwyd bod cyfanswm y capasiti yn cael ei rannu gyda faint o flynyddoedd ysgol sydd yna, yn y cynradd er enghraifft o flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6, ac mae hynny'n rhoi rhif mynediad i chi. e.e. mae ysgol gyda 70 o blant a 7 blwyddyn addysgol ynddi gyda rhif mynediad o 10. Mae'r rhif yma yn bwysig gan fod ganddo rym cyfreithiol. Os ydi ysgol yn cael 10 neu lai o geisiadau ar gyfer y flwyddyn Derbyn yna mae'n rhaid i ysgol dderbyn pob cais, does dim hawl gwrthod. Os oes mwy o geisiadau yn dod na'r rhif mynediad, yna mae hawl i wrthod y cais os oes modd dangos bod cymeradwyo pawb sydd wedi ymgeisio am fod yn broblemus i'r ysgol. Mae'r rhif hefyd yn bwysig yn nhermau moderneiddio ysgolion.
Mae atodiadau eisoes wedi cael ei rhannu sy'n cynnwys taenlen yn dangos newidiadau sydd wedi bod i rif derbyn rhai ysgolion. Mae tîm wedi bod o gwmpas yn edrych ar rai dalgylchoedd, a dyma sydd wedi achosi'r newidiadau yma yn dilyn edrych ar y defnydd o'r dosbarthiadau a'r neuadd ac ati. Nodwyd bod fformiwla Genedlaethol i'w defnyddio i gyfrifo'r capasiti a does dim modd i'r Awdurdod ei newid. Yn dilyn unrhyw addasiad, rhaid ymgynghori ar y rhif mynediad newydd. Nodwyd nad ydi'r broses ymgynghori wedi digwydd gyda'r ysgolion sydd wedi cael ei nodi ar y daenlen eto.
Nododd GapRh bod y mwyafrif helaeth o ymweliadau wedi arwain at leihau'r rhif mynediad oni bai am ambell i ysgol. Ydi hyn yn rhywbeth sy'n debygol o ddigwydd mewn dalgylchoedd eraill hefyd? Nododd DAWJ bod hi'n anodd dweud nes mynd mewn i'r ysgol i weld beth yw'r defnydd o bob ystafell a pa addasiadau sydd wedi bod dros y cyfnod - a bwydo'r wybodaeth i mewn i'r fformiwla. Mae trafodaethau agored yn digwydd gyda'r Penaethiaid hefyd os oes angen eglurhad pellach yn ystod ymweliad.
Nododd JT bod angen cynghori gydag Ysgolion Eglwys hefyd wrth newid rhif mynediad.
Holodd GapRh pa ddalgylch fydd yn cael ymweliad nesaf? Nododd DAWJ bod bwriad o ymweld ac 1-2 dalgylch yn yr hanner tymor nesaf, ac mae dalgylch Glan y Môr wedi ei gynnig. Bwriedir cynnal ymweliad i ddwy ysgol Uwchradd eleni hefyd.
Holodd GapRh os oes proses apêl os ydi Llywodraethwyr yn anghytuno gyda rhif mynediad?
Nododd ODH bod modd i'r Llywodraethwyr ymateb drwy'r ymgynghoriad ffurfiol. Os ydynt

yn anhapus yna yn y pendraw fe allent ofyn i'r Llywodraeth ail edrych arno fel apêl. Mae canllawiau clir yn y cod ymddygiad am y camau iddynt ddilyn os ydynt yn apelio.

5. **Capasiti Ysgolion a llefydd gweigion**

Nododd ODH bod hwn yn drosolwg Sirol er mwyn cael darlun llawn o'r sefyllfa. Mae'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn flynyddol, ac felly'n gyfle i'w gyflwyno i'r Fforwm hefyd. Nodwyd bod ffigyrau llefydd gweigion yr Uwchradd wedi gostwng rhywfaint ond tydi hynny ddim yn wir am y Cynradd. Ategodd GapRh bod y ffigwr Cynradd yn dangos cynnydd yn y llefydd gweigion dros dreigl amser a bydd yn cael effaith ar demograffi Uwchradd dros y blynyddoedd nesaf hefyd a fydd yn arwain at gynnydd yn y llefydd gweigion Uwchradd.
Nododd DAWJ o ran y gwaith sy'n cael ei wneud ar adolygu capasiti, nad oes unrhyw agenda ar gyfer lleihau llefydd gweigion. Mae'r capasiti ar sail y fformiwla. Ategodd bod cyfarfod ADEW Cynllunio Llefydd Gweigion fory ble fydd data pob Awdurdod yn cael ei rannu. Gwynedd sydd hefo'r canran uchaf o lefydd gweigion drwy Gymru.

6. **Diweddariad ar geisiadau trosglwyddo**

Nodwyd bod yr eitem yma ar y rhaglen yn dilyn cais o'r cyfarfod diwethaf. Nododd ODH yn hanesyddol doedd ceisiadau trosglwyddo ddim yn cael eu cofnodi mewn bas data, ond mae rhywfaint o'r wybodaeth ar gael yn electroneg erbyn hyn.
Does dim tabl ar gyfer ceisiadau trosglwyddo'r Cynradd ond byddai modd edrych ar y data fel sector dros gyfnod penodol yn hytrach nag adrodd ar bob ysgol Gynradd.
Nododd ODH mai ceisiadau ydi'r data yma a tydi o ddim o reidrwydd yn golygu bod y ceisiadau wedi eu cymeradwyo ar y pwynt yma.
Holodd GapRh os oes modd addasu'r ffurflen fel bod rhieni'n rhoi rheswm pam bod cais trosglwyddo yn cael ei wneud? Nododd ODH bod modd gwneud hynny. Mae gofod ar y ffurflen bresennol gyda chyfle i rieni roi rheswm ond does dim gorfodaeth arnynt ei gwblhau.
Cytunwyd bod hi'n bwysig edrych i mewn i hyn. Mae nifer o ffactorau a rhesymau posib dros pam bod cais trosglwyddo yn cyrraedd ar gyfer plentyn. Mae'n debyg bod angen i'r Awdurdod ystyried yr holl resymau posib a'i ymgorffori nhw i mewn i'r ffurflen er mwyn ceisio cael darlun o'r tueddiadau.
Nododd RhPJ bod y mwyafrif o'r disgyblion wedi trosglwyddo i Ddyffryn Nantlle yn rhai sydd wedi cael trafferthion ADYaCh neu bresenoldeb yn yr ysgol flaenorol. Mae mwyafrif o ffurflenni yn nodi nad oes rheswm dros drosglwyddo, felly mae cynnal y drafodaeth gyda'r ysgol flaenorol yn anodd. Byddai'n fuddiol cael gymaint o wybodaeth â phosib ar y ffurflen er mwyn sicrhau bod yr ysgol gyda'r adnoddau ac wedi ei staffio'n addas i unrhyw anghenion. Yn ogystal, does dim arian yn trosglwyddo gyda'r plant chwaith ac mae'n creu trafferthion anferthol i ysgolion.
Nododd GapRh bod angen edrych o ddifrif ar y ffurflen drosglwyddo. **Bydd yn ysgrifennu at holl Benaethiaid Gwynedd yn nodi bod bwriad o ail adolygu'r ffurflen gan ofyn pa fath o wybodaeth mae ysgol yn dymuno ei gael pan mae plentyn yn trosglwyddo yno.** Ategodd hefyd bod argymhelliad clir am fod yn yr adroddiad CPR yn dilyn troseddau Neil Foden bod angen i Lywodraethwyr gael mynediad at ddata trosglwyddiadau'r ysgol a bod modd eu cymharu gydag ysgolion eraill y Sir hefyd. Fel Fforwm mae angen bod yn barod am y newid yma. Yn ogystal â hyn, **nododd GapRh ei fwriad o fod yn llythyru pob Corff Llywodraethu ar ôl hanner tymor yn nodi'r pwysigrwydd bod arian yn dilyn plentyn os ydynt yn trosglwyddo.**

7. **Y Broses Apeliadau**

Cafwyd cyflwyniad ar y broses yn dilyn cais o'r cyfarfod diwethaf. Nodwyd nad ydi mynediad i ysgolion arbennig yn dod o dan yr un ddeddfwriaeth ac mae'n broses wahanol. Mae mynediad ond yn cael ei roi os ydi'r ysgol wedi ei enwi ar CDU. Tribiwnlys ADY wedyn fysa yn delio ag unrhyw apêl. **Cytunwyd yn y cyfarfod nesaf i amlygu niferoedd ysgolion arbennig hefyd.**

8. **Diweddariad Ysgolion VA**

Ni thrafodwyd

9. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

9 Mawrth 2026